

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Cefn Carnau - Uned Bryntirion,
Uned Derwen ac Uned Sylfaen
Elysium Health Care (Rhif 3) Cyf

Dyddiad arolygu:

13 - 15 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 16 Tachwedd
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	What we did	5
2.	Summary of our inspection.....	6
3.	What we found	8
	Quality of patient experience	9
	Delivery of safe and effective care	15
	Quality of management and leadership	25
4.	What next?	29
5.	How we inspect independent mental health services	30
	Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection	31
	Appendix B – Improvement plan	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol Cefn Carnau ar noson 13 Awst, a diwrnodau 14 a 15 Awst 2018. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Sylfaen
- Uned Bryntirion
- Uned Derwen

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol pan oedd perchenogaeth o'r gwasanaeth wrthi'n cael ei throsglwyddo, a oedd wedi cael effaith negyddol ar forâl staff.

Ar y cyfan, mae'r darparwr cofrestredig wedi gwneud cynnydd yn y meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, yn y cyfnod cyn yr arolygiad hwn, roedd yn parhau i ddibynnu ar staff asiantaeth i lenwi rotâu, er bod proses recriwtio yn parhau i fynd rhagddi er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisïau a'i brosesau ar gyfer rhoi gofal i'r cleifion hynny na chawsant eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. .

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cynnal amgylchedd gofal a oedd yn briodol i'r grŵp cleifion
- Roedd gweithgareddau yn yr ysbyty a'r gymuned yn helpu cleifion i gynnal a datblygu sgiliau
- Trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol
- Ar y cyfan, roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Roedd cofnodion cleifion wedi'u hysgrifennu i safon broffesiynol uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyfforddiant gorfodol mewn rhai sgiliau hanfodol
- Dogfennu'r defnydd o bwerau dal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl
- Polisiau a gweithdrefnau ar gyfer cleifion nad ydynt yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Effeithiolrwydd archwiliadau o reoli meddyginiaethau

Nodwyd achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn o ran rheoli meddyginiaethau, hyfforddiant (gorfodol) y gweithlu a chadw cofnodion (o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl). Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Cefn Carnau wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth anabledau dysgu annibynnol yn ysbyty Cefn Carnau, Carnau Lane, Thornhill, Caerffili, CF83 1LX.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 11 Rhagfyr 2003. Mae'n ysbyty rhyw cymysg â 22 o welyau. Mae'n cynnwys:

- Uned Sylfaen

Gwasanaeth diogel lefel isel yn unig i hyd at 8 (wyth) o oedolion sy'n fenywod dros 18 (deunaw) oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- Uned Bryntirion

Gwasanaeth diogel lefel isel yn unig i hyd at 8 (wyth) o oedolion sy'n ddynion dros 18 (deunaw) oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

- Uned Derwen

Gwasanaeth diogel lefel isel yn unig i hyd at 6 (chwech) o oedolion sy'n 18 (deunaw) oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Ar adeg yr arolygiad, roedd 21 o gleifion yn yr ysbyty.

Cyfarwyddwr yr ysbyty yw rheolwr cofrestredig y gwasanaeth. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys seiciatrydd ymgynghorol, rheolwr gwasanaethau clinigol, gweithiwr cymdeithasol, timau seicoleg a therapi, tîm iechyd corfforol, ynghyd â thîm o nyrsys cofrestredig a chynorthwyr gofal iechyd.

Gallai'r tîm hefyd gael gafael ar ddisgyblaethau eraill megis deietegydd, therapi lleferydd ac iaith a ffisiotherapi.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ar y cyfan, gan eu trin ag urddas a pharch a chadarnhawyd hyn gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon ynglŷn ag ymddygiad amhroffesiynol rhai aelodau o'r staff.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau a therapïau addas ar gael yn ysbyty Cefn Carnau ac yn y gymuned.

Roedd hybu, diogelu a gwella iechyd yn amlwg yn yr ysbyty, gyda mewnbwn o amrywiol ddisgyblaethau i gefnogi cleifion a gwaith monitro iechyd corfforol manwl. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth ychwanegol gael ei harddangos ar y wardiau.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd hybu, diogelu a gwella iechyd yn rhan o'r gofal a ddarperir yn ysbyty Cefn Carnau. Roedd y Strategaeth Iechyd a Lles Corfforol yn cefnogi iechyd corfforol cleifion; roedd hyn yn cynnwys mentrau iechyd a lles corfforol.

Ers ein harolygiad blaenorol, roedd y darparwr wedi recriwtio nyrs practis a oedd yn ychwanegiad cadarnhaol at y tîm iechyd corfforol a oedd yn cynnwys presenoldeb rheolaidd gan feddyg teulu drwy'r wythnos.

Roedd gan gleifion yn ysbyty Cefn Carnau basbortau ysbyty; mae'r rhain yn helpu pobl sydd ag anableddau dysgu i roi gwybodaeth gyffredinol am yr unigolyn a'i iechyd corfforol i staff mewn ysbytai cyffredinol pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.

Roedd deietegydd yn dod i'r ysbyty bob mis neu yn ôl y gofyn. Roedd y deietegydd yn rhoi mewnbwn ar y dewisiadau ar y fwydlen yn yr ysbyty er mwyn helpu i roi ystod o opsiynau bwyd cytbwys i gleifion yn yr ysbyty. Roedd hefyd yn rhoi cyngor arbenigol er mwyn ymateb i ofynion deietegol penodol cleifion.

Roedd gan Cefn Carnau amrywiaeth o gyfleusterau i helpu i ddarparu therapïau a gweithgareddau ynghyd â mynediad rheolaidd i'r gymuned i'r cleifion hynny a oedd wedi cael awdurdod i adael yr ysbyty.

Roedd y staff yn mynd ati i ennyn diddordeb cleifion mewn Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol¹ a oedd yn hyrwyddo adferiad ac adsefydlu, megis paratoi prydau bwyd a gweithgareddau domestig eraill, a'u helpu i gymryd rhan ynddynt.

Roedd gan yr ysbyty gegin therapi galwedigaethol a oedd ar gael i gleifion baratoi prydau bwyd ac ystafell golchi dillad a oedd yn cynnwys peiriant golchi dillad a pheiriant sychu dillad fel y gallai cleifion ddysgu a chynnal eu sgiliau.

Roedd gan yr ysbyty gampfa y gallai cleifion ei defnyddio. Roedd cleifion a oedd yn treulio cyfnod i ffwrdd o'r ysbyty yn gallu defnyddio campfa a chyfleusterau hamdden eraill yn y gymuned leol.

Roedd gan yr ysbyty dri cherbyd dynodedig; roedd y rhain yn helpu'r staff i hwyluso gweithgareddau i'r cleifion, lleoliadau gwaith gwirfoddol ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod rhaglenni addysgol ar gael i gleifion a'u bod yn cael eu hannog i gymryd rhan ynddynt. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthiadau wedi'u hwyluso yn yr ysbyty a hefyd gyrsiau yn y gymuned. Roedd yr ysbyty wedi datblygu llyfrgell yn yr ysbyty ers ein harolygiad blaenorol.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ysbyty i gleifion, a oedd yn cynnwys manylion ynglŷn â sut i godi cwyn a chysylltu â sefydliadau allanol megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a manylion am y trefniadau eiriolaeth a oedd ar gael. Fodd bynnag, gallai'r gwasanaeth wella'r amrywiaeth o wybodaeth sy'n cael ei harddangos i gleifion er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth am hybu iechyd. Roedd ychydig o wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion ar ffurf Hawdd ei Ddarllen neu yn Gymraeg hefyd, neu roedd ar gael yn hawdd.

¹ Gall y gweithgareddau hyn gynnwys tasgau bob dydd megis gwisgo, hunanfwydo, ymolchi, golchi dillad, a pharatoi prydau bwyd.

Oherwydd digwyddiad pan oedd claf wedi tynnu gwybodaeth yn Uned Sylfaen i lawr, prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos drwy gydol yr arolygiad ar y ward hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wella'r amrywiaeth o wybodaeth sy'n cael ei harddangos i gleifion er mwyn cynnwys rhagor am hybu iechyd.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos ac ar gael mewn fformat addas i gleifion, megis Hawdd ei Ddarllen ac yn Gymraeg.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod arddangosfeydd o wybodaeth i gleifion yn cael eu diogelu'n briodol.

Urddas a pharch

Nodwyd bod pob cyflogai: staff y ward, uwch reolwyr a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom fod staff yn trin y cleifion â pharch; pan oedd cleifion yn mynd i fyny at aelodau o staff roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol. Ar y cyfan, cytunodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch yn yr ysbyty.

Fodd bynnag, cododd rhai cleifion yn Uned Sylfaen bryderon am staff yn cynnal sgysiau o fewn clyw'r cleifion yn y rhannau o'r ward i gleifion a oedd yn amhriodol ac yn amhroffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau am amgylchiadau personol y staff neu wybodaeth gyfrinachol am gleifion eraill. Dangosodd rheolwr y ward fod y pryderon yn cael eu hystyried a rhoddodd sicrwydd i ni y câi camau priodol eu cymryd.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gallai fynd iddi drwy gydol y dydd; roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd i gleifion. Roedd cleifion yn gallu cloi eu hystafelloedd gwely eu hunain, y gallai'r staff eu datgloi os oedd angen. Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely cleifion ac roedd yn amlwg bod modd i gleifion bersonoli eu hystafelloedd a bod digon o le i storio eu heiddo.

Roedd gan yr ysbyty ystafelloedd penodol i gleifion gyfarfod â staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd trefniadau ymweld ar waith i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ystafelloedd yn flêr gydag eitemau diangen ac roedd teganau i blant ymwelwyr yn cael eu storio'n amhriodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw eitemau diangen yn cael eu gadael mewn ystafelloedd cymunedol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod teganau i blant ymwelwyr yn cael eu storio'n briodol.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Fel y nodir uchod, roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae angen cynyddu'r amrywiaeth o fformatau gwybodaeth er mwyn diwallu anghenion y grŵp cleifion yn y ffordd orau bosibl.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a chleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â chleifion. Roedd staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roeddent yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Roedd pob ward yn cynnal cyfarfodydd boreol dyddiol er mwyn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ynghyd â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, apwyntiadau meddygol a thribiwnlysoedd. Roedd cleifion hefyd yn cael cyfle i roi adborth ar y gofal y maent yn ei gael yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai cleifion gael cymorth gan gyrrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb cleifion, gallai eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr hefyd fod yn bresennol.

Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn cyfathrebu'n glir a'u bod yn deall eu gofal. Roedd y cleifion hefyd yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a bod cleifion yn gallu gweld, gyda'r adolygiadau o gofnodion gofal electronig, fod eu safbwyntiau yn cael eu cynnwys a'u hystyried.

Buom yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd clinigol, ac roedd yn amlwg bod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn a oedd orau i'r claf unigol. Pan oedd y claf yn bresennol yn y cyfarfod, roedd pob aelod o'r staff yn ymgysylltu mewn ffordd barchus ac yn gwrando ar safbwyntiau'r claf, gan roi rhesymau clir dros y penderfyniadau a wnaed i'r claf.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ffocws clir ar roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion, gyda champau pwylllog i ryddhau claf i amgylchedd llai cyfyngol. Roedd gofal yn cael ei addasu ar gyfer yr unigolyn, roedd yn canolbwyntio ar adferiad ac roedd yn cael ei roi ar sail arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac o ran arferion y ward neu'r ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd manylion rhyddhau un claf a oedd ar fin cael ei ryddhau wedi'u cofnodi yn y Cynllun Gofal a Thriniaeth ac nid oedd y cofnodion electronig yn cynnwys gwybodaeth am y cydgyssylltydd gofal cymunedol na thîm cymorth rhyddhau'r claf.

Roedd gan bob claf ei raglen gofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol megis meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd ei angen, roedd awdurdodiad wedi cael ei roi).

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion y staff a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal. Dangosodd yr ystadegau fod 94% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cymwys diweddaraf.

Fodd bynnag, nodwyd meysydd i'w gwella o ran cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf); manylir ar hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfleoedd i gleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth ar y gofal a roddir yn yr ysbyty; roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd unigol a chymunedol.

Roedd gan bob ward lyfr cwynion i gofnodi cwynion anffurfiol a chanlyniad y gŵyn. Roedd cwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi'n electronig, gan ddogfennu hynt a chanlyniad y gŵyn. Roedd trefniadau llywodraethu'r darparwr cofrestredig yn rhoi cyfle i ddadansoddi cwynion a monitro'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn unol â pholisi'r darparwr cofrestredig.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn trafod unrhyw bryderon gydag aelodau o'r staff a'u bod yn gwybod sut i godi cwyn os oedd angen. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ynglŷn â sut i godi cwyn yn cael ei harddangos ar bob ward.

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd pob ward yn cynnal cyfarfod dyddiol lle y gallai cleifion godi unrhyw bryderon a oedd ganddynt. Roedd cyfarfodydd Cyngor Cleifion yr ysbyty yn cael eu cynnal bob mis a'u cofnodi, lle roedd cynrychiolwyr ward cleifion ac uwch reolwyr yr ysbyty yn bresennol. Roedd y darparwr cofrestredig hefyd yn cynnal Fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau ar y safle yng Nghymru bob chwarter fwy neu lai. Roedd hyn yn gyfle i gleifion a staff o ysbytai o fewn y sefydliad drafod beth oedd yn digwydd yn eu hysbytai eu hunain ac yn gyfle i rannu dysgu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â sut i godi cwyn yn cael ei harddangos yn glir ar bob ward.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn sgil ei adnewyddu roedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd dodrefn addas, gyda gosodiadau a ffitiadau priodol ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith yn yr ysbyty i reoli risg a diogelwch, rheoli heintiau a rheoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Mae meysydd penodol y mae angen eu gwella o ran y defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a chwblhau dogfennaeth gysylltiedig.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth cleifion yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan Cefn Carnau brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd modd cael mynediad i diroedd yr ysbyty drwy glwyd ddiogel a reolir drwy system intercom yn y dderbynfa. Roedd pob adeilad a ward yn yr ysbyty yn cael eu diogelu hefyd drwy fynediad allwedd.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd manau galw am nyrs hefyd o amgylch yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely cleifion er mwyn i gleifion alw am gymorth os oedd angen.

Roedd y gwaith o adnewyddu'r ysbyty a oedd wedi dechrau ar adeg ein harolygiad blaenorol, wedi cael ei gwblhau. O ganlyniad, roedd amgylcheddau'r wardiau mewn cyflwr da ac yn cynnwys dodrefn addas. Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion.

Roedd asesiad risg pwyntiau clymu ar waith, a oedd yn nodi manau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain. Roedd hyn yn cael ei adolygu yn y mis ar ôl ein harolygiad.

Cadarnhaodd y staff fod nifer y digwyddiadau wedi lleihau yn ystod y misoedd blaenorol. Roedd y cofnodion clinigol, gan gynnwys y system cofnodi digwyddiadau, yn dyst i hyn, gan ddogfennu pob digwyddiad a'r ffordd roedd yn cael ei reoli.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant 63% o'r staff nyrsio yn gyfredol o ran Hyfforddiant Torri i Ffwrdd a Rheoli Trais a Hyfforddiant Ymddygiad Ymosodol ond dim ond 40% o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd a oedd wedi cwblhau'r rhain. Roedd 79% o'r staff nyrsio wedi cwblhau eu hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys. Dangosodd y darparwr cofrestredig fod sesiynau hyfforddiant yn yr arfaeth er mwyn rhoi hyfforddiant diweddar i'r staff yn y meysydd hyn.

Roedd Arweinydd Diogelwch yr ysbyty yn cynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor Diogelwch bob mis. Roedd y cyfarfodydd yn adolygu digwyddiadau diogelwch a oedd wedi codi yn ystod y mis blaenorol ac yn mynd i'r afael â nhw ynghyd â materion eraill a oedd yn codi yn yr ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod yr archwiliad o fannau clymu'r ysbyty yn cael ei adolygu a'i gwblhau yn unol â'r terfynau amser gofynnol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod. Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cofnodion o amserlenni glanhau yn cael eu cynnal a oedd yn dangos gweithgarwch glanhau rheolaidd.

Roedd cynhyrchion glanhau dwylo ar gael yn y manau perthnasol o'r ysbyty; ar y cyd â'r rhain roedd arwyddion a lluniau priodol. Roedd cyfarpar diogelu personol i atal a rheoli heintiau a diheintio hefyd ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos bod 85% o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant Rheoli Heintiau lefelau 1 a 2 a bod 100% o'r staff cymorth wedi cwblhau lefel 1.

Dywedodd rhai cleifion wrthym nad oedd y toiledau na'r cawodydd bob amser mor lân ag y gallent fod. Nodwyd gennym fod rhai o'r toiledau a'r cawodydd wedi'u staenio. Roedd angen rhoi sylw i silff ffenestr y gegin yn Uned Sylfaen hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cawodydd a thoiledau'n cael eu cynnal i safon hylendid briodol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio silff ffenestr y gegin yn Uned Sylfaen neu osod un newydd.

Maeth

Roedd prydau bwyd yn cael eu darparu ar gyfer cleifion yn yr ysbyty a oedd yn cynnwys brecwast, cinio, pryd o fwyd gyda'r nos a swper. Roedd cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty a oedd ar gylch o bedair wythnos ac yn newid yn dymhorol. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cael gafael ar fyrbrydau a diodydd poeth ac oer.

Roedd deietegydd yn dod i'r ysbyty yn ôl yr angen. Roedd y deietegydd yn rhoi mewnbwn ar ddewisiadau'r fwydlen yn yr ysbyty er mwyn helpu i ddarparu amrywiaeth o opsiynau bwyd cytbwys i gleifion, ynghyd â rhoi cyngor arbenigol ar gyfer deiet claf unigol.

Roedd y bwydlenni ar ffurf lluniau er mwyn helpu cleifion a all gael anhawster darllen a gallem weld bod golwg y rhai wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol.

Cymysg fu safbwyntiau cleifion ar y prydau bwyd a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd rhai cleifion yn cwyno bod y bwyd yn ailadroddus gyda dewis cyfyngedig i fodloni eu gofynion. Cadarnhaodd cleifion eraill a'r staff fod staff y gegin yn hyblyg; roeddent yn rhoi opsiynau ychwanegol neu'n amrywio'r fwydlen er mwyn diwallu anghenion cleifion a bodloni eu gofynion. Nodwyd gennym hefyd fod gan bob ward lyfr cyfathrebu yn y gegin y gallai'r cleifion ei ddefnyddio i roi adborth ar y trefniadau arlwygo yn yr ysbyty. Hefyd, roedd aelod o staff y gegin yn mynd i gyfarfodydd y Cyngor Cleifion yn rheolaidd er mwyn trafod adborth ar arlwygo yn uniongyrchol â chleifion.

Roedd ceginau i gleifion ar bob un o'r wardiau a chegen therapi galwedigaethol yn y bloc gweithgareddau a oedd yn rhoi cyfle i gleifion baratoi eu prydau bwyd eu hunain a datblygu eu sgiliau.

Roedd cleifion â chaniatâd i adael yr ysbyty yn gallu mynd i mewn i'r gymuned i brynu eitemau o fwyd a chynhwysion. Nodwyd gennym hefyd y byddai staff ward a staff y gegin yn prynu eitemau penodol o fwyd a chynhwysion ar ran claf os nad oeddent wedi cael caniatâd i adael yr ysbyty.

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn yr ysbyty yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ac oergelloedd a oedd dan glo. Roedd trolïau meddyginiaethau dan glo ac yn cael eu clymu wrth y wal pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Adolygwyd samplau o siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn y tair ward. Roedd pob un o'r siartiau a welwyd yn cynnwys enw'r claf a'i statws o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd siartiau yn Uned Bryntirion ac Uned Sylfaen yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson ar adeg rhagnodi a rhoi meddyginiaeth, ac roedd rheswm yn cael ei gofnodi os na roddwyd y feddyginiaeth. Fodd bynnag, roedd siartiau anghyflawn yn Uned Derwen nad oeddent bob amser yn rhoi cofnod o roi meddyginiaeth nac achosion o wrthod meddyginiaeth gan y claf.

Nid oedd stoc a chofnodlyfr cyffuriau a all gael eu camddefnyddio yn Uned Sylfaen yn cyfateb i'w gilydd; roedd y cofnodlyfr yn gorddatgan y cyflenwad o un feddyginiaeth o dair tabled. Ymchwiliodd rheolwr y ward i'r mater hwn yn ystod yr arolygiad a chadarnhaodd nad oedd y cofnod wedi'i gwblhau pan roddiodd tair tabled yn ystod cylch meddyginiaeth; roedd cofnodion clinigol eraill yn dangos bod hyn wedi digwydd. Fodd bynnag, nid oedd y gwall wedi cael ei nodi gan y nyrsys cofrestredig yn ystod eu gwiriadau dyddiol o'r stoc.

Roedd archwiliad allanol gan fferylllydd yn cael ei gynnal yn rheolaidd a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod yr archwiliad yn nodi gwallau'n rheolaidd ac nad oedd hyn yn gwella ymarfer y staff bob amser.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar yr holl bolisiau perthnasol ar reoli meddyginiaethau yn yr ysbyty ynghyd â chopi cyfredol o Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain².

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael ei chwblhau'n gywir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn gwirio stociau o gyffuriau a reolir a chyffuriau a all gael eu defnyddio yn gywir.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 100% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu plant diweddaraf a bod 99% wedi cael yr hyfforddiant diogelu oedolion diweddaraf.

Fodd bynnag, o ran digwyddiad diogelu diweddar, nid oedd y darparwr cofrestredig wedi dogfennu'n glir y mesurau diogelu roedd wedi'u rhoi ar waith tra bod ymchwiliad i'r digwyddiad. Roedd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r trefniadau a oedd i fod ar waith. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod o'r trefniadau hyn a thrwy arsylwi ar y ward nid oedd yn amlwg i ni fod y rhain yn cael eu dilyn. Codwyd ein pryderon gyda'r Rheolwr Cofrestredig ac ymdriniwyd â'r rhain yn ystod yr arolygiad.

² Llyfr cyfeirio fferyllol yw Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain sy'n cynnwys rychwant eang o wybodaeth a chyngor ar ragnodi a ffarmacoleg, ynghyd â ffeithiau penodol a manylion am feddyginiaethau unigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod clir o unrhyw drefniadau diogelu newydd neu ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar waith er mwyn cyfarwyddo'r staff ar y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau o'r cyfarpar dadebru yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar bob un o'r wardiau yn ôl y gofyn, a oedd yn dogfennu bod yr holl gyfarpar dadebru yn bresennol ac yn gyfredol. Roedd gan bob ward dorwyr clymau a oedd yn cael eu storio mewn manau dynodedig.

Yn Uned Bryntirion, roedd y cyfarpar brys yn cael ei storio yn yr ystafell glinig a dim ond y nyrsys cofrestredig oedd yn gallu cael mynediad iddi. Roedd hyn yn golygu, pe bai argyfwng, na fyddai gweithiwr cymorth gofal iechyd yn gallu cael gafael ar y cyfarpar ei hun a all achosi oedi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r lleoliad ar gyfer storio cyfarpar brys yn Uned Bryntirion fel y gall pob aelod o'r staff gael gafael arno'n ddi-oed.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion. Roedd trefniadau llywodraethu'r ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu corfforaethol Elysium Healthcare a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Fel y nodir mewn man arall o'r adroddiad, mae angen i'r darparwr cofrestredig fynd i'r afael â diffygion mewn rhai Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru a manylir ar y rhain, ynghyd â chamau gweithredu'r darparwr cofrestredig yn Atodiad B.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn electronig fel arfer ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd. Roedd dogfennaeth ar bapur yn cael ei storio'n ddiogel mewn swyddfeydd dan

glo a gwelsom aelodau o'r staff yn diweddarau ac yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Monitro'r Deddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol cleifion mewn dwy ward, sef Uned Derwen ac Uned Sylfaen. Adolygwyd hefyd y prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn yr ysbyty.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion yn unol ag Adran 58 o'r Ddeddf, Cydsynio i Driniaeth; ac roedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth bob amser yn cael eu storio gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth. Golygai hyn fod y staff a oedd yn rhoi'r feddyginiaeth yn gallu cyfeirio at y dystysgrif er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth adran 58 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod taflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos yn Uned Sylfaen a oedd yn rhoi gwybodaeth am feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi o bosibl ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y rhesymau dros ddefnyddio'r feddyginiaeth, sgil-ffeithiau a sut i ynganu'r enw. Fodd bynnag, roedd yn anodd darllen y wybodaeth hon oherwydd maint y ffont ac am ei bod yn cael ei harddangos y tu ôl i wydr rhwylllog. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried fformat y wybodaeth fel bod y ffont yn fwy o faint a'i bod yn cael ei harddangos mewn lleoliad lle y byddai'n haws ei darllen. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gwneud hyn ym mhob ward arall yn yr ysbyty ac mewn ysbytai eraill.

Roedd pob achos o ryddhau cleifion dros dro o'r ysbyty wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni Rhyddhau Adran 17. Roedd y ffurflenni Rhyddhau Adran 17 yn nodi'n glir yr amodau rhyddhau, h.y. wedi'i hebrwng neu heb ei hebrwng, lleoliad a hyd.

Nid oedd cofnodion cleifion yn dogfennu p'un a oedd y claf wedi cael cynnig copi o'i ffurflen Rhyddhau Adran 17 neu wedi derbyn copi er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r Chod Ymarfer ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, Diwygiedig 2016 (y Cod), paragraff 27.18. Rydym wedi nodi hyn yn ddiweddar mewn ysbyty arall o fewn sefydliad y darparwr cofrestredig. Mae'r darparwr cofrestredig wedi cadarnhau bod archwiliad yn cael ei gynnal bellach i fonitro ffurflenni Rhyddhau Adran 17; mae angen gweithredu hyn ym mhob un o'i ysbytai.

Roedd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i gleifion ar gael i'r staff er mwyn eu helpu yn ystod trafodaethau gyda chleifion ar eu gofal a'u triniaeth yn yr ysbyty.

Roedd cofnodion cleifion yn dogfennu eu bod wedi cael eu hysbysu o'u hawliau (Adran 132 o'r Ddeddf), ond nid oedd fawr ddim gwybodaeth wedi'i chofnodi yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym er mwyn cael tystiolaeth bod hawliau yn cael eu hailgyflwyno'n rheolaidd. Nid oedd fawr ddim manylion wedi'u cofnodi ychwaith o'r hyn a drafodwyd a ph'un a oedd y claf yn deall y wybodaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o ba wybodaeth y mae'r claf wedi'i chael yn unol â'r Cod, pennod 4.

Codwyd pryderon gennym ynglŷn â'r pwerau deddfwriaethol a'r defnydd o'r Ddeddf ar gyfer claf/cleifion yn yr amgylchedd diogel lefel isel nad oeddent wedi'u cadw o dan y Ddeddf (a elwir yn glaf anffurfiol yn aml). Nid oedd y ddogfennaeth ar gyfer cymhwysio Adran 5 o'r Ddeddf, Pwerau Dal³, bob amser yn dogfennu'r broses gymhwysio na'r canlyniad yn glir. Mewn un achos, roedd y ddogfennaeth statudol a oedd wedi'i chwblhau yn nodi bod Adran 5(4)⁴ wedi'i defnyddio ar ôl i bŵer o dan Adran 5(2) ddod i ben⁵; nid dyna'r defnydd cywir o'r pwerau dal.

O edrych ar ddogfennaeth cleifion a siarad â'r staff roedd yn amlwg ar gyfer un claf anffurfiol, pan oedd yn gofyn am gael gadael yr ysbyty, y byddai'r staff yn defnyddio'r pwerau dal yn Adran 5 i atal y claf rhag gadael yr ysbyty. Mae hyn yn arwydd clir, er mai claf anffurfiol yw'r claf, nad yw'n rhydd i adael yr ysbyty mewn gwirioneddol ac felly ei fod yn cael ei Gadw mewn Ffaith⁶.

Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisiâu a'i arferion er mwyn sicrhau, os oes claf anffurfiol yn derbyn gofal yn yr ysbyty, fod y darparwr cofrestredig yn dilyn y ddeddfwriaeth briodol ac nad yw achosion o Gadw Mewn Ffaith yn codi.

³Y pwerau yn Adran 5 sy'n caniatáu i gleifion mewnol ysbyty gael eu cadw dros dro fel y gellir penderfynu p'un a ddylid gwneud cais i gadw.

⁴Pwerau dal a gymhwysir gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu glinigydd cymeradwy sy'n gyfrifol am drin y claf, am gyfnod o hyd at 72 awr.

⁵Pwerau dal a gymhwysir gan nyrs (o'r dosbarth rhagnodedig), am gyfnod o hyd at chwe awr.

⁶ Claf sy'n cael ei gadw mewn ysbyty ond nid drwy hawl gyfreithiol o reidrwydd

Yn ystod yr adolygiad o un cais Adran 3 roedd yn amlwg bod y perthynas agosaf⁷ wedi'i nodi. Nid oedd modd cysylltu â'r perthynas agosaf i ymgynghori ag ef/hi ar adeg cadw; nid oedd unrhyw gofnod o ymgais arall i gysylltu â'r perthynas agosaf i'w hysbysu o'i hawliau o dan y Ddeddf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o b'un a yw'r claf wedi cael cynnig copi o'i ffurflen Rhyddhau Adran 17 ac wedi derbyn copi.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o ba wybodaeth y mae'r claf wedi'i chael o dan Adran 132 o'r Ddeddf, ynghyd â manylion a chanlyniad y drafodaeth, wedi'i llywio gan y Cod, pennod 4.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion (gan gynnwys dogfennaeth statudol) yn dogfennu'r defnydd o bwerau dal o dan y Ddeddf a'r canlyniad yn glir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisiau a'i arferion ar gyfer cleifion anffurfiol er mwyn atal unrhyw achosion o Gadw Mewn Ffaith.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y perthnasau agosaf yn cael eu hysbysu o'u hawliau o dan y Ddeddf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pum claf i gyd.

Gwelwyd tystiolaeth bod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion. Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn cyfeirio at gryfderau'r claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydlu ac annibyniaeth. Roedd y rhain wedi cael eu datblygu gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol ac yn unol ag arfer sy'n

⁷ Person a ddiffiniwyd gan y Ddeddf sydd â hawliau a phwerau penodol o dan y Ddeddf mewn perthynas â chlaf y mae'n berthynas agosaf iddo.

seiliedig ar dystiolaeth. Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth hefyd yn cynnwys cofnod da o fonitro iechyd corfforol a hybu iechyd.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion er mwyn nodi a monitro darpariaeth gofal cleifion, ynghyd ag asesiadau risg sy'n nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, nid oedd unrhyw ddogfennaeth glir ar reoli claf unigol yn dilyn digwyddiad er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu ar waith. Ymdriniwyd â hyn yn ystod ein harolygiad.

Cadarnhaodd cleifion eu bod yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu eu gofal gyda ffocws ar ryddhau i amgylchedd llai cyfyngol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, nid oedd unrhyw gynllun gofal rhyddhau ar waith i glaf a oedd ar fin cael ei symud i leoliad cymunedol. Cadarnhaodd y staff yn yr adborth ar yr arolygiad y câi hyn ei ddatblygu yn dilyn yr arolygiad.

Mae angen datblygu a diweddarau cynlluniau gofal yn ddi-oed i adlewyrchu newidiadau yn amgylchiadau claf unigol er mwyn rhoi eglurder i'r staff ac i'r cleifion unigol.

Roedd yn beth cyffredin hefyd nad oedd y staff yn dogfennu'n glir unrhyw anghenion a allai fod gan glaf nad oeddent yn cael eu diwallu pan oedd yn cael gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig y caiff anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu eu dogfennu fel y gall y tîm amlddisgyblaethol adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn ystyried opsiynau i ddiwallu'r anghenion hynny. Gall y rhain gynnwys anawsterau i nodi lleoliad addas er mwyn rhyddhau claf o'r ysbyty.

Gyda chaniatâd y claf unigol buom yn bresennol mewn nifer o adolygiadau gofal, gan arsylwi ar y staff yn cynnal cyfarfod cynhwysol oedd yn canolbwyntio ar y claf. Pan benderfynodd claf beidio â chymryd rhan yn y cyfarfod, gwelsom fod y staff yn gwrandao ar safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion ac yn rhoi rhesymau clir dros y penderfyniadau a wnaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu datblygu a'u diweddarau'n ddi-oed i adlewyrchu newidiadau yn amgylchiadau claf unigol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion cleifion nas diwallwyd yn cael eu dogfennu yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth glir a oedd yn cael eu cefnogi gan strwythurau sefydliadol Elysium Healthcare.

Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda. Mae angen gwelliannau mewn rhai meysydd hyfforddiant gorfodol.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd gan uwch reolwyr a nodwyd gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu yn yr ysbyty ac yn y strwythur sefydliadol ehangach.

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau i uwch reolwyr a meddygon ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos. Fodd bynnag, cododd rhai aelodau o'r staff bryderon nad oedd gan yr ysbyty drefniadau rheoli clir yn ystod y sifft nos. Nodwyd gennym, er y byddai un o'r nyrsys cofrestredig ar y sifft yn cael ei dynodi i fod yn gyfrifol am yr ysbyty, nad oedd rolau na chyfrifoldebau'r unigolyn hwnnw wedi'u diffinio'n ddigonol.

Roedd cydweithio cadarn fel tîm amlddisgyblaethol gyda'r staff yn siarad yn ffafriol am ei gilydd ac yn nodi eu bod yn teimlo bod aelodau eraill o staff yn gwrandao ar eu safbwyntiau ac yn eu parchu. Soniodd cyfarwyddwr yr ysbyty am gysylltiadau da rhwng cymheiriaid a chymorth gan gyfarwyddwyr ysbyty lleol eraill Elysium drwy gyfarfodydd rheolaidd neu o bell dros y ffôn neu e-bost.

Soniodd y staff yn gadarnhaol am y cymorth gan gydweithwyr o bob disgyblaeth a nodwyd bod morâl wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad blaenorol. Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Roedd yn gadarnhaol bod staff Cefn Carnau, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir o ran rheoli'r ysbyty yn ystod y sifft nos.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i ymdrin â chwynion cleifion ar gyfer gwasanaethau yn ysbyty Cefn Carnau.

Roedd cwynion yn cael eu categoreiddio'n rhai anffurfiol neu ffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol, a godwyd ac a ddatryswyd ar lefel y ward, yn cael eu cofnodi ar bapur mewn cofnodlyfr cwynion gyda chwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar system electronig y darparwr cofrestredig. Roedd cwynion ffurfiol yn cael eu monitro a'u hadolygu drwy drefniadau llywodraethu corfforaethol a oedd yn sicrhau bod y broses gwyno yn cael ei dilyn a'i chwblhau.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Cofnodwyd digwyddiadau ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygwyd y niferoedd staffio yn ysbyty Cefn Carnau ac roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig wedi mynd ati i recriwtio er mwyn llenwi unrhyw swyddi gwag yn yr ysbyty. Ar adeg yr arolygiad roedd pob swydd wag wedi cael ei llenwi; roedd rhai aelodau o staff wrthi'n cwblhau eu rhaglen gynefino a gwiriadau cyn cyflogaeth cyn dechrau yn eu rolau yn yr ysbyty.

Fel gyda'n harolygiad blaenorol, roedd yr ysbyty yn dibynnu ar y defnydd o staff asiantaeth i lenwi rotâu ond roedd yn gadarnhaol nodi bod hyn yn lleihau o fis i fis. Gyda'r penodiadau a gostyngiad sylweddol yn lefelau salwch staff dros y chwe mis blaenorol (o 11% i 1%), ar adeg yr arolygiad, roedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n bennaf i helpu i hwyluso arsylwadau ychwanegol.

Edrychwyd ar yr ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol i'r staff a gwelwyd bod cyfraddau cwblhau e-ddysgu yn uchel ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen gwelliant sylweddol yn y cyrsiau ystafell ddosbarth canlynol: Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol (cydymffurfiaeth o 45%), Torri i Fwrdd (cydymffurfiaeth o 47%), Datrys Anghydfodau (cydymffurfiaeth o 44%) a Hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol (cydymffurfiaeth o 35%). Roedd y darparwr cofrestredig wedi pennu dyddiadau hyfforddiant ar gyfer y cyrsiau hyn er mwyn unioni'r diffygion hyn.

Roedd goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth gan reolwyr ar gael i'r staff; roedd ystadegau yn adlewyrchu'r cyfraddau uchel. Fodd bynnag, wrth siarad â rhai aelodau o'r staff yn yr ysbyty, gwnaethant godi pryder nad yw goruchwyliaeth gan reolwyr a goruchwyliaeth glinigol bob amser ar wahân a bod y gorgyffwrdd rhyngddynt yn effeithio'n negyddol ar effeithiolrwydd y naill a'r llall. Cododd y staff bryderon hefyd, yn ystod y misoedd diwethaf, oherwydd pwysau i sicrhau bod digon o staff ar gael ar y wardiau, fod goruchwyliaeth yn digwydd yn ystod amser cinio, nad oedd yn briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys: Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Torri i Fwrdd, Datrys Anghydfodau a Hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffordd y darperir goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth gan reolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n effeithiol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes angen i'r staff ofyn am oruchwyliaeth yn ystod eu hamser cinio.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn ysbyty Cefn Carnau, ac edrychwyd ar sampl o bum ffeil aelod o staff. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg; gyda chofnodion o geisiadau, cyfweliadau a chyfathrebu ym mhob ffeil. Roedd geirdaon staff cyn cyflogaeth yn cael eu derbyn, roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau ac roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal, ac yna'n hadnewyddu bob tair blynedd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cefn Carnau

Dyddiad arolygu: 13 – 15 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wella'r amrywiaeth o wybodaeth sy'n cael ei harddangos i gleifion er mwyn cynnwys rhagor am hybu iechyd.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd 9. Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion	Bydd bwrdd hybu iechyd ar gael ar bob ward. Caiff gwefan iechyd hawdd ei defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth. Caiff hybu iechyd ei ychwanegu at agenda cyfarfodydd cymunedol.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	30.11.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod	3. Hybu, diogelu a	Fel uchod		

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwybodaeth yn cael ei harddangos ac ar gael mewn fformat addas i gleifion, megis Hawdd ei Ddarllen ac yn Gymraeg.	gwella iechyd 9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion 18. Cyfathrebu effeithiol	Caiff hybu iechyd ei drafod yn ystod sesiynau un i un. Gofynnir i gleifion a oes unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Caiff ceisiadau am wybodaeth yn Gymraeg eu dogfennu mewn cynlluniau gofal.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	30.11.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod arddangosfeydd o wybodaeth i gleifion yn cael eu diogelu'n briodol.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd 9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Bydd hysbysfyrddau newydd â gorchuddion eu gosod yn lle'r rhai presennol.	Rheolwr Cymorth Busnes	15.12.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw eitemau diangen yn cael eu gadael mewn ystafelloedd cymunedol.	10. Urddas a pharch	Caiff pob eitem nad oes ei hangen ei storio neu ei gwaredu. Caiff hyn ei ddogfennu ar restrau eiddo.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod tegantau i blant ymwelwyr yn cael eu storio'n briodol.	10. Urddas a pharch	Bydd yn chwilio am flwch storio caeedig ac ni chaiff ei leoliad yn ardal y toiledau.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31.10.2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â sut i godi cwyn yn cael ei harddangos yn glir ar bob ward.	5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth 9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Caiff poster sut i wneud cwyn ei arddangos ar bob ward.	Rheolwr Busnes Cymorth	31.10.2018
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod yr archwiliad o fannau clymu'r ysbyty yn cael ei adolygu a'i gwblhau yn unol â'r terfynau amser gofynnol.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Amgylchedd	Mae'r broses archwilio clymau yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a chaiff ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cawodydd a thoiledau'n cael eu cynnal i safon hylendid briodol.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Caiff yr amserlen lanhau ei hadolygu a'i diweddarau. Bydd staff cadw tŷ a staff y wardiau yn cael eu hysbysu am hyn.	Rheolwr Busnes Cymorth	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig atgyweirio silff ffenestr y gegin yn Uned Sylfaen neu osod un newydd.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Caiff y tîm cynnal a chadw ei hysbysu a bydd yn cwblhau'r gwaith atgyweirio.	Rheolwr Busnes Cymorth	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod	15. Rheoli meddyginiaeth	Bydd rheolwyr ward yn cwblhau	Rheolwr	31.10.2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
pob siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael ei chwblhau'n gywir.	au	archwiliad wythnosol. Eir i'r afael â chamgymeriadau drwy oruchwyliaeth gan reolwyr. Bydd Ashtons yn hwyluso hyfforddiant rheoli meddyginiaeth.	Gwasanaethau Clinigol Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31.10.2018 30.11.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn gwirio stociau o gyffuriau a reolir a chyffuriau a all gael eu defnyddio yn gywir.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Bydd pob cofnod yn cael ei lofnodi gan ddau unigolyn. Caiff stociau eu gwirio'n ddyddiol. Bydd Cyfarwydd yr Ysbyty / Rheolwr Gwasanaethau Clinigol yn monitro cofnodion yn y llyfrau bob wythnos.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Cyfarwyddwr yr Ysbyty	31.10.2018 31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod clir o unrhyw drefniadau diogelu sydd ar waith er mwyn cyfarwyddo'r staff ar y camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Mae gwybodaeth diogelu ar gael yn y dderbynfa. Mae'r ffurflen atgyfeirio ar gael i bob aelod o'r staff nyrzio.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31.10.2018
Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r lleoliad ar	16. Dyfeisiau meddygol,	Caiff eu lleoliad eu hadolygu gan y	Rheolwr	31.10.2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gyfer storio cyfarpar brys yn Uned Bryntirion fel y gall pob aelod o'r staff gael gafael arno'n ddi-oed.	offer a systemau diagnostig	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol a'r Ymarferydd Iechyd Corfforol.	Gwasanaethau Clinigol	
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o b'un a yw'r claf wedi cael cynnig copi o'i ffurflen Rhyddhau Adran 17 ac wedi derbyn copi.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Caiff hyn ei ddogfennu mewn nodiadau gofal unwaith bod y rhan ar ryddhau o dan adran 17 wedi cael ei diweddarau.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod o ba wybodaeth y mae'r claf wedi'i chael o dan Adran 132 o'r Ddeddf, ynghyd â manylion a chanlyniad y drafodaeth.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Caiff crynodeb o'r drafodaeth ei gwblhau ar ffurflen sy'n rhan o'r nodiadau gofal.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion (gan gynnwys dogfennaeth statudol) yn dogfennu'r defnydd o bwerau dal o dan y Ddeddf a'r canlyniad yn glir.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Bydd y swyddfa Deddf Iechyd Meddwl yn craffu ar y broses o gwblhau gwaith papur. Caiff gwaith papur ei lanlwytho i'r nodiadau gofal.	Y swyddfa Deddf Iechyd Meddwl	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisiau a'i arferion ar gyfer cleifion anffurfiol er mwyn atal unrhyw achosion o Gadw Mewn	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Os caiff claf ei ryddhau, caiff y tîm cymunedol ei hysbysu. Y clinigydd cyfrifol fydd yn gyfrifol am gydgysylltu â'r claf i weld a yw am aros	Clinigydd Cyfrifol	31.10.2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ffaith.		<p>yn ysbyty Cefn Carnau yn anffurfiol nes dod o hyd i leoliad. Os nad yw'n achos brys, caiff ei atgyfeirio at y tîm cymunedol.</p> <p>Caiff y swyddfa Deddf Iechyd Meddwl ei hysbysu a bydd yn helpu gyda'r broses o gwblhau dogfennaeth.</p>		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod perthnasau agosaf yn cael eu hysbysu o'u hawliau o dan y Ddeddf.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Caiff taflenni gwybodaeth eu hanfon at berthnasau agosaf yn dilyn y broses dderbyn.	Y swyddfa Deddf Iechyd Meddwl	31.10.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu datblygu a'u diweddarau'n ddi-oed i adlewyrchu newidiadau yn amgylchiadau claf unigol.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	<p>Mae aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol wedi cael eu hysbysu o'r cyfrifoldeb i ddiweddarau cynlluniau gofal.</p> <p>Caiff cynlluniau gofal eu hadolygu yn ystod cyfarfodydd misol y tîm amlddisgyblaethol.</p>	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion cleifion nas diwallwyd yn cael eu dogfennu yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Caiff hyn ei ddogfennu yn yr Adolygiad Gofal Unigol misol a'i drafod yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol a'r	Clinigydd Cyfrifol	31.10.2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfarfod adolygu bob chwe mis.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir o ran rheoli'r ysbyty yn ystod y sifft nos.	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Caiff rota o'r rheolwyr sydd ar ddyletswydd ei arddangos yn yr ysbyty. Bydd nyrs yn cael ei neilltuo i gynorthwyo wardiau yn ystod y nos. Bydd cyfarwyddwr yr ysbyty yn ystyried cyflwyno swydd cydgysylltydd nos.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd Cwblhawyd 30.11.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys: Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Torri i Fwrdd, Datrys Anghydfodau a Hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Mae amserlen hyfforddiant ar waith ac mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei drefnu a'i neilltuo yn ôl y gofyn.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	30.11.2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffordd y darperir goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth gan reolwyr er mwyn sicrhau eu	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad	Mae'r ffordd y darperir goruchwyliaeth glinigol yn cael ei hadolygu a bydd rheolwr-oruchwylwr yn cael ei neilltuo ar	Cyfarwyddwr yr Ysbyty/Rheolwr Gwasanaethau	30.11.2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod yn cael eu cwblhau'n effeithiol.	sefydliadol	gyfer pob aelod o'r staff a bydd goruchwyliaeth glinigol yn cael ei neilltuo ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Bydd yn ofynnol i'r staff gwblhau taflen adborth bob chwarter.	Clinigol	
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes angen i'r staff ofyn am oruchwyliaeth yn ystod eu hamser cinio.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Caiff y ffordd y darperir goruchwyliaeth ei hadolygu a chaiff amser ei gadarnhau gyda'r staff unwaith y penderfynir ar amser addas.	Cyfarwyddwr Ysbyty yr	31.10.2018

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Andrew Goldsworthy

Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 5 Hydref 2018